

Diweddariad Gwybodaeth

Mai 6ed 2021

Diwrnodiau Hyfforddiant Mewn Swydd.

Atgoffir rhieni y bydd yr ysgol ar gau i ddisgyblion o'r Dosbarth Derbyn hyd Flwyddyn 6 Ddydd Gwener Mai 28ain a Dydd Llun Mehefin 7fed ar gyfer Hyfforddiant Mewn Swydd.

****Sicrhau lle yn y Clwb Brecwast a Chlwb Wedi Ysgol ****

Mae bellach YN ORFODOL fod rhieni sydd angen defnyddio'r cyfleusterau yma yn sicrhau lle o leiaf 48 awr ymlaen llaw - nid ydym am siomi neb! Mae'r broses trwy Parentmail fel a ganlyn:

Accounts --- ASC/Breakfast Club ---Dewiswch 'day' ---Dewiswch amser – Sgroliwch i lawr --- Opsiwn i ailadrodd ar gyfer wythnosau eraill neu dewiswch 'continue' i barhau --- Adolygu- /Review—Cwblhau/Complete

Sulgwyn

Bydd yr Ysgol ar gau yn ystod gwyliau hanner tymor y Sulgwyn o Ddydd Llun Mai 31ain hyd Ddydd Gwener Mehefin 3ydd. Mae gwasanaeth Gofal Plant ar gael ar gyfer disgyblion y Grŵp Chwarae/ Y Feithrinfa/Dosbarth Derbyn o Ddydd Mawrth hyd Ddydd Gwener. Mae'r ffurflen archebu lle i'w gweld mewn negeseuon Parentmail blaenorol. **Dim ond y ceisiadau fydd wedi eu gwneud trwy ddefnyddio'r ffurflen gywir fydd yn cael eu gwarantu. Dylai'r ysgol dderbyn eich ffurflen erbyn Dydd Gwener Mai 14eg ar yr hwyraf.**

Lluniau Ysgol

Bydd **Tempest**, y cwmni ffotograffwyr yn yr Ysgol ar Fehefin 10fed a'r 11eg i dynnu lluniau unigolion. Bydd holl ganllawiau Covid yn cael eu dilyn.

Dylai'r rhieni sicrhau fod eu cyfeiriadau e bost a'u manylion cyswllt cywir gennym gan y bydd y broses yn ddi-bapur y tro hwn. Bydd rhieni yn derbyn dolen ar eu e bost ar gyfer prynu lluniau.

Gwisg Addysg Gorfforol

O Ddydd Llun Mai 17eg dylai disgyblion newid i'w gwisg Addysg Gorfforol er mwyn cymryd rhan yn y gwersi Addysg Gorfforol. Y wisg Addysg Gorfforol yw - siorts du a Chrys 'T' melyn swyddogol yr ysgol gydag esgidiau ymarfer (dylech brynu'r Crysau 'T' gan yr ysgol – gwelwch y cyfarwyddiadau isod ar sut i archebu gwisg ysgol).

Taliadau i'r Ysgol

Atgoffir rhieni y dylid talu yn llawn yn wythnosol am wasanaethau. Dylid talu am y Clwb Brecwast, Clwb Wedi Ysgol a Chinio Ysgol trwy gyfrwng Parentmail os nad yw talebau gofal plant yn cael eu defnyddio.

Gallwch wneud taliadau trwy ddewis yr adran 'Accounts'.

Archebu Gwisg Ysgol – bydd archebion am Wisg Ysgol yn cael eu danfon i'r dosbarthiadau rhwng 8 o'r gloch a 8:30 o'r gloch y bore yn dilyn i'r archeb gael ei gwneud. Gallwch archebu Gwisg Ysgol ar-lein gan ddefnyddio Parentmail gan ddewis 'Payments- Shop'.

Dylid parhau i dalu ffioedd y Crèche/Grŵp Chwarae/ Ysgol Feithrin yn wythnosol trwy archeb sefydlog. Dylech gofio mewn achos o absenoldeb ,na sy'n gysylltiedig â gorfodaeth i gau'r Ysgol, y dylid talu am yr holl sesiynau sydd wedi eu cadw i'ch plentyn.

Cyfarwyddid diweddaraf ar Covid-19 – Ebrill 2021

'Bydd ysgolion/lleoliadau am ystyried amrywio neu addasu'r amseroedd dechrau a gorffen i gadw grwpiau arwahan wrth iddynt gyrraedd a gadael yr ysgol.'

'Dylai ysgolion ystyried sut maent am gyfleu hyn i rieni/gofalwyr a'u hatgoffa o'r broses y cytunwyd arni ar gyfer danfon a chasglu dysgwyr, gan gynnwys na cheir ymgynnull wrth giatiau'r ysgol na dod i'r safle heb apwyntiad.'

Rydym yn hynod ddiolchgar i'r rhieni sydd yn cynorthwyo ein hymdrech i gadw ein disgyblion, staff a rhieni yn ddiogel oddi mewn ac oddi allan i giatiau'r ysgol. Fel ysgol, rydym yn gwneud ein gorau i sicrhau fod ein systemau yn cyfarfod â / rhagori ar Reoliadau /Ganllawiau'r Llywodraeth..

Diolchwn ichwi am eich cefnogaeth a'ch cydweithrediad parhaus.

R Williams Cyfarwyddwr Gweithredol